**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2023.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**04 Rhagfyr 2023**

**Disgrifiad**

1. Mae *Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2023* ("Rheoliadau 2023") yn diwygio *Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992* (OS 1992/3238) ('Rheoliadau 1992').

2. Mae Rheoliadau 1992 yn rhagnodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w talu gan awdurdodau bilio (yng Nghymru, y 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) i'r gronfa ardrethi annomestig. Gwneir diwygiadau yn flynyddol i Atodlen 4 (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) i Reoliadau 1992 i sicrhau bod y sail ar gyfer cyfraniadau oddi wrth awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethi yn dal yn gyfredol. Mae angen gwneud diwygiadau i Reoliadau 1992 i alluogi awdurdodau bilio i gyfrifo eu cyfraniadau ardrethu annomestig ar gyfer 2024-25.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

3. Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor.

**Y cefndir deddfwriaethol**

4. Mae adran 60 o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* ('Deddf 1988'), a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, yn nodi'r pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â chyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w gwneud gan awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethu annomestig.

5. Cafodd y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 60 o Ddeddf 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, ei drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999* (OS 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

6. Diwygiodd *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012* Ddeddf 1988 gan ddarparu'n benodol bod y pwerau amrywiol yn adran 60 o Ddeddf 1988 ac Atodlen 8 iddi (gan gynnwys y rhai i wneud rheoliadau) wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

7. Mae adran 143(2) o Ddeddf 1988 yn darparu'r pŵer ymhellach i Weinidogion Cymru gynnwys darpariaeth ganlyniadol o fewn Rheoliadau 2023.

8. Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

9. Mae paragraff 4(6) o Atodlen 8 i Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn i Reoliadau 2023 gael effaith ar gyfer blwyddyn ariannol benodol, fod rhaid iddynt ddod i rym cyn 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2023 am y flwyddyn ariannol 2024-25.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

10. Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio dalu cyfraniadau ardrethu annomestig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ardrethi y maent yn eu casglu oddi wrth eiddo annomestig yn eu hardaloedd. Telir yr holl ardrethi a gesglir gan awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethu annomestig ynghyd â'r ardrethi a gesglir gan Lywodraeth Cymru oddi wrth dalwyr ardrethi'r Rhestr Ganolog.

11. Dosberthir y refeniw cyfunol i gynghorau sir a bwrdeistref sirol a chomisiynwyr heddlu a throseddu Cymru ar sail ffigurau poblogaeth oedolion fel rhan o'r setliadau llywodraeth leol blynyddol. Mae awdurdodau bilio yn gwneud taliadau i'r gronfa ar sail amcangyfrifon a gwblheir ganddynt cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae’r awdurdodau bilio wedyn yn cyflwyno ffurflenni wedi'u harchwilio ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ac yn cael taliadau oddi wrth Weinidogion Cymru neu'n gwneud taliadau ychwanegol i’r gronfa fel y bo'n briodol.

12. Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy amnewid Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion). Bydd y ffigurau yn Atodlen 4 yn cael eu defnyddio i bennu trothwy i awdurdodau bilio gyfrifo eu cyfraniadau amodol i’r gronfa ar gyfer 2024-25.

13. Os na wneir y newidiadau hyn, bydd yr amcangyfrifon a wneir gan awdurdodau bilio ar gyfer eu cyfraniadau i’r gronfa ardrethu yn anghywir gan y byddant yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth y flwyddyn flaenorol, nad ydynt yn gyfredol.

14. Mae Rheoliadau 2023 hefyd yn diweddaru cyfeiriadau ym mharagraff 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 1992 at orchmynion a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Diddymwyd adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ('Deddf 2013'). Dylai cyfeiriadau yn y paragraff hwnnw fod at adran 37(1) o Ddeddf 2013 (Gweithredu gan Weinidogion Cymru), ac mae Rheoliadau 2023 yn gwneud y diwygiad canlyniadol angenrheidiol i Reoliadau 1992 sy'n deillio o’r ffaith fod Deddf 2013 wedi dod i rym.

## Ymgynghori

15. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad. Mae'r diwygiadau hyn o ddiddordeb i'r awdurdodau bilio perthnasol yn unig ac nid oes ganddynt unrhyw effaith ar dalwyr ardrethi. Mae'r ffigurau poblogaeth yn cael eu diweddaru’n flynyddol ac nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau polisi.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

16. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer Rheoliadau 2023 gan eu bod yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru Rheoliadau 1992 a chan nad ydynt, wrth wneud hynny, yn newid effaith y polisi mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng *Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth*.